| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005

Diben y Gorchymyn yma yw gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bod. I raddau helaeth, mae'r newidiadau hyn yn golygu gosod cyfeiriadau at "awdurdodau tân ac achub" yn lle cyfeiriadau at "brigadau tân"; a chyfeiriadau at "Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004" ("y Ddeddf") yn lle cyfeiriadau at "Deddf y Gwasanaethau Tân 1947".

### Rheol Sefydlog 11.7

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Wrth ymgynghori, awgrymwyd y dylai diwygiadau gael eu gwneud i'r Gorchmynion a gyfansoddodd yr awdurdodau tân cyfun yng Nghymru. Mae adran 4 o'r Ddeddf yn darparu mai'r awdurdodau hyn yw'r awdurdodau tân ac achub ar gyfer eu hardaloedd a bod effaith y cynlluniau a'u cyfansoddodd yn parhau. Serch hynny, mae'r weithdrefn ar gyfer eu hamrywio neu eu dirymu wedi'i chynnwys yn yr adran. Er y gellid credu ei bod yn ddymunol rhoi teitlau cyfreithiol priodol newydd i'r awdurdodau, dydy absenoldeb teitlau o'r fath ddim yn ddiffyg y byddai'n briodol cyflwyno adroddiad arno o dan Reol

Sefydlog 11.7.

Tynnwyd sylw hefyd wrth ymgynghori at Reoliadau Amddiffyn Sifil (Swyddogaethau Cyffredinol Awdurdodau Lleol) 1993, sy’n parhau mewn grym tan 14 Tachwedd 2005. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu bod yr amser rhwng y dyddiad y daw’r Gorchymyn yma i rym ar 25 Hydref 2005 a’r dyddiad hwnnw mor fyr nes nad yw’n bwriadu diwygio Rheoliadau 1993. Penderfyniad polisi yw hyn yn hytrach na diffyg drafftio ar gyfer y Pwyllgor yma.

Mynegwyd amheuaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori nad oedd angen diwygio Gorchymyn Twnnel y Sianel (Gwasanaethau Tân, Mewnfudo a Rhwystro Terfysgaeth) 1990. Mae’r Gorchymyn cyfredol yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig, ac felly nid yw’n amlwg ar unwaith pam y mae Twnnel y Sianel yn berthnasol. Serch hynny, mae’r darpariaethau y cyfeirir atyn nhw yn erthygl 24(a) o’r Gorchymyn cyfredol yn ymwneud ag atgyfnerthu awdurdodau tân ac achub eraill. O gofio y gallai argyfwng yn Nhwnnel y Sianel fod yn ddifrifol iawn o ran ei natur, nid yw’n amhosibl dychmygu y byddai galw ar awdurdodau Cymru i atgyfnerthu awdurdod Caint. Er bod rhaid gobeithio na fydd angen dibynnu ar y diwygiadau yma byth, ni chredir ei bod yn anghywir eu cael yn eu lle rhag ofn i’r angen godi.

Pwynt diddorol arall a wnaed wrth ymgynghori oedd bod cyfeiriadau at ddiffoddwyr tân rhan-amser mewn amryw o’r diwygiadau yn anghywir. Credid bod newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2004 yn golygu bod rhychwant amryw o ddarpariaethau wedi’i ymestyn y tu hwnt i’r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Er enghraifft, mae’n ddigon posibl y gallai’r anwybyddiad ar gyfer taliadau i ddiffoddwyr tân rhan-amser at ddibenion cyfrifo budd-daliadau gael ei estyn i weithwyr rhan-amser eraill yr awdurdodau tân ac achub hefyd. Mae’r mater yma’n berthnasol hefyd o ran trefniadau pensiwn, ac mae’n haeddu cael ei ystyried ymhellach. Serch hynny, fyddai hi ddim yn briodol mewnosod darpariaethau manwl mewn gorchymyn sy’n gwneud diwygiadau canlyniadol. Gan hynny, bernir bod y gorchymyn drafft yn gywir wrth beri cyn lleied o newid ag sy’n angenrheidiol, ond y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried rhagor o ddeddfwriaeth er mwyn mynd i’r afael â’r materion a godwyd.

Gwnaed y pwynt wrth ymgynghori fod y newidiadau sy’n cael eu gwneud gan y Gorchymyn yma yn golygu bod yr awdurdodau tân ac achub yn cael eu tynnu o’r darpariaethau ynglyn â’r gwerth gorau sy’n gymwys iddyn nhw ar hyn o bryd a hynny heb roi darpariaethau newydd yn eu lle. Deellir y bydd hyn yn destun deddfwriaeth arall, gan y bydd yn golygu mwy na dim ond diwygiadau canlyniadol.

Nododd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor nifer fach o bwyntiau eraill hefyd yn sgil ystyried y drafft ymgynghori, ac mae’r rheiny wedi’u diwygio erbyn hyn.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 11 Hydref 2005